



## Hanes ac ecology a'r Gomin Pen-y-bont

Nid pethau naturiol mo'n tirweddau ni. Siâp y bryniau a'r dyffrynnoedd, ie, ond ers rhai miloedd o flynyddoedd mae dynion yn clirio'r dirwedd, yn rhoi anifeiliaid i bori arni, ei draenio a'i lefelu. Ar hyd yr holl amser yna, mae bywyd yn ymaddasu ac yn ymateb i'r newidiadau rydym yn eu gwneud ynddo, yn cael ffyrdd o ffynnu pan rown gyfle iddo. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos pryfed ac infertebratau eraill, a'r rheini y byddwn ni'n canolbwyntio arnyn nhw yn y gweithgaredd yma.

Er mai tir mynediad agored ydi'r comin, mae'r un rheolau'n berthnasol ag i gerdded ar dir fferm yn gyffredinol: cadwch gŵn ar dennyn, gofalgwch beidio â gollwng sbwriel, a pheidiwch â gwneud difrod i ddim byd. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ran y pocedi bregus o wlyptiroedd a chynefinoedd eraill arunig... mewn byr o eiriau, byddwch yn ofalus wrth gerdded.

### 1. Gweld yr olygfa

Pan fyddwch chi'n gyrru drwy Ben-y-bont ac ar draws y comin, mae i'w weld, hwyrach, yn lle diffaith: wedi'i bori'n foel, a'r dirwedd yn frith o eithin geirwon a drain gwynion crebachlyd. Fydd y rhan fwyaf o bobl ddim yn aros i edrych ar y manylion, felly dyna lle cychwynnwn ni.

Yn fwy na thebyg o'r pentre ym Mhen-y-bont y byddwch yn cychwyn, felly dechreuwch drwy fynd am **dro bach tua'r gogledd (rwy'n argymhell cychwyn ar hyd ffordd Dolau) nes i chi gael rhywle sy'n rhoi golygfa dda i chi**. Mae'r comin yn dipyn mwy nag y meddyliech chi, yn mynd o Ben-y-bont, bron cyn belled â'r Pales (gweler y gweithgareddau eraill), a welwch chi ar y bryn i'r gogledd-ddwyrain. Oddi mewn i'r cyffiniau yma, mae yna lond gwlad o wahaniaethau cynnil yn y cynefinoedd. Efallai bod hyn am fod yna rannau sy'n wlypach na'i gilydd, clytiau cysgodol lle mae gwahanol blanhigion, neu un goeden.

O'r fan lle'r ydych chi'n edrych, brasluniwch yr olygfa welwch chi oddi tanoch, a labelu pum rhan o'r Comin allai fod, yn eich tyb chi, yn gartrefi gwahanol greaduriaid. Gallwn chwilota rhai ohonyn nhw'n ddiweddarach!

- 1.
- 2.
- 3.
- 4.
- 5.

## 2. Effaith pobl

Mae canrifoedd o reolaeth pobl wedi siapio'r comin, ond yn wahanol i dir fferm preifat mae'r rheoli hwnnw'n dueddol o fod yn llai dwys. Ychydig o ffermwyr fyddai am fuddsoddi'n fawr mewn porfa gymunedol, felly at ei gilydd dim ond ychydig o 'wella' fu arni (h.y. ei gwrteithio, ei draenio ac yn y blaen. Porfa arw ydi hon yn bennaf, yn enwedig i ddefaid (ond mewn oesoedd cynt, anifeiliaid eraill hefyd – merlod, gwartheg, a moch yn helbori). Mae pori dwys yn cael sawl effaith hirdymor...

### *Amrywiaeth*

Craffwch ar yr amrywiaeth o blanhigion ar ran nodweddiadol o'r comin. Gewch chi ateb tebyg o chwilio ar hap am flodau rydych yn eu hadnabod, ond mae'n well gweithio'n fwy gwyddonol, i weld sawl gwahanol rywogaeth gewch chi ar glwt bach o dir (ddwedwn ni un medr sgwâr). Does dim gofyn i chi fod yn gwybod beth ydyn nhw – dim ond eu cyfrif! Cofiwch chwilio am wahanol fathau o laswellt, yn ogystal â phlanhigion amlycach! (Peidiwch â chynnwys mwsoglau a chennau.)

Amrywiaeth gafwyd mewn tuag 1 m<sup>2</sup> o laswelltir nodweddiadol wedi'i bori (dry):

Bydd beth gewch chi'n dibynnu ar lle'n union y chwiliwch chi, a'r adeg o'r flwyddyn. O'i gymharu, fe all fod gan laswelltir sialc dros 40 o rywogaethau planhigion y medr sgwâr... ond fel arfer dim ond dyrnaid sydd gan dir amaeth *wedi'i wella*. Mae wyth hyd at bymtheg rhywogaeth y medr sgwâr yn 'normal' i borfa *wedi'i lled wella*. **I baategori mae'r comin yn perthyn, meddech chi?**

Rwan ta... yn y rhan gyntaf fe ganfyddoch chi wahanol fathau o dir. Gobeithio bod un o'r rheini'n llain laith ar lan nant, neu mewn pant: tir gwlyb â phlanhigion sy'n amlwg yn wahanol. Tendiwch pan fyddwch chi'n cerdded, ond ewch i gael golwg ar un o'r lleiniau corslyd hyn... sawl rhywogaeth welwch chi yma?

Amrywiaeth o blanhigion gafwyd mewn tuag 1 m<sup>2</sup> o wlyptir:

Pam y gwahaniaeth? Fe allech chi sylwi hefyd fod y tyfiant hefyd yn dalach nag ar y tir sych, moel... pam felly? Am yr un rheswm, mae llawer o'r planhigion welsoch chi yn y manau sych yn rhyfedd o grebachlyd, a chanddyn nhw goesau bychain bach, ceimion prin yn uwch na'r ddaear.

### **Yr ateb? Defaid.**

Yn wahanol i wartheg, mae defaid yn cyndyn fwyta pennau beth bynnag a gân nhw, a blodau sydd orau ganddyn nhw yn hytrach na glaswellt. Gan hynny mae llawer o blanhigion yn grebachlyd, yn dal eu gafael lle gallan nhw, ac yn y diwedd mae'r glaswellt yn cael y gorau arnyn nhw gan ei fod yn tyfu'n gyflymach. Mae ambell i rywogaeth, fel Tresgl (gweler y llun ar dud. 5, a phlanhigion cyffredin eraill), yn llwyddo i ddal eu gafael yn eang iawn... ond mae rhywogaethau eraill wedi diflannu'n gyfan gwbl.

**C.: Pam, yn ôl pob golwg, mae hyn heb ddigwydd yn y manau corslyd? A pha gynefinoedd (fel nodoch chi yn y rhan gyntaf) ar y comin allai fod yn well er mwyn bioamrywiaeth?**

### 3. Pryfed amlwg

Mae hi'n bryd i ni grwydro! Yn enwedig os bydd hi'n heulog, ewch am dro bach am chwarter awr, a chwilio am ieir bach yr haf a gwenyn ar eich ffordd. Cyfrwch nhw wrth i chi fynd, a gwneud eich gorau i beidio â chyfri'r un un ddwywaith. (A chofiwch edrych welwch chi fathau eraill o bryfed hefyd, wrth gwrs...)

Ieir bach yr haf:

Gwenyn:

C.: Mewn gardd fawr, llawn blodau yn yr haf, allech chi ddisgwyl cyfrif o leiaf deg neu ugain o ieir bach yr haf yn yr amser yna, a dwsinau o weny. Sut mae'ch canlyniadau chi'n cymharu?

C.: Oedd y gwenyn wedi'u crynhoi mewn ychydig o lefydd, ynte welsoch chi nhw ym mhob man aethoch chi? Os oedden nhw wedi'u crynhoi, ym mha fath o gynefin cawsoch chi nhw?

Pethau i feddwl amdanyn nhw.

- Er mwyn gallu ffynnu yn rhywle, mae ar weny angen cyflenwad da o neithdar drwy'r rhan fwyaf o'r flwyddyn. Mae gofyn digon o drwch o flodau i gynnal eu hanghenion o ran egni.
- Mae ar ieir bach yr haf angen planhigion lletyol neilltuol i'w lindys. Os nad ydi'r planhigion hynny yno, dim ond galw heibio wnân nhw.
- Mae gwenyn ac ieir bach yr haf yn gallu hedfan ymhell i chwilio am fwyd, ond mae llawer o rywogaethau pryfed yn dueddol o aros mewn lle cyn bychan am y rhan fwyaf o'u hoes... ac maen nhw hefyd yn dibynnu ar blanhigion neilltuol neu amgylcheddau penodol iawn.

### 4. Her y Fwch Gota Hieroglyffig!

Hwyrach y bydd yn syndod i chi gael ar ddeall nad dim ond dwy neu dair o rywogaethau buchod coch cwta sydd yna yng ngwledydd Prydain... ond agos i hanner cant! O blith y rhain, mae cryn dipyn yn fach ac yn bwl eu lliw, ond er hynny, mae yna 26 o rywogaethau y byddech chi'n gwybod ar eich union eu bod yn fuchod coch cwta, ac mae gan rai ohonyn nhw sawl patrwm lliw gwahanol. Mae rhai rhywogaethau (fel y 2 smotyn a'r 7 smotyn) yn gyffredin iawn, ond mae eraill yn bur brin. Mae un o'r rhai prin (ar led yng ngwledydd Prydain, ond yn lleoledig iawn a bellach, trista'r sôn, yn lleihau) yn byw ar Gomin Pen-y-bont... y **Fwch Gota Hieroglyffig** *Coccinella hieroglyphica* (gweler y llun ar y dudalen olaf).

Fydd hi ddim yn hawdd cael hyd iddi. Dydi hi ddim yn niferus a dim ond ar y lleiniau corslyd mae hi'n byw (neu fannau eraill lle does yna ddim defaid – fel arfer mae hi i'w chael ar weunydd, mannau ynghlwm â grug). Dim ond yn yr haf (fel arfer mis Mehefin tan fis Medi) y cewch chi hi'n chwilen ar ei llawn dwf, ac mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n rhoi cynnig ar gael hyd iddi'n methu. Os cewch chi hyd iddi, cofiwch dynnu llun, rhoi gwybod i ni, a'ch cyfri'ch hun yn lwcus!

## Neges i fynd adref i'ch canlyn

Cyfuniad rhyfedd ydi'r comin, o dir gwyllt na fu fawr o ymyrryd ag ef (clytiau o wlyptir, y goedlan wedi'i ffensio yn ymyl y pentre, a llethrau serth ar lannau nentydd lle na fydd y defaid ddim yn pori), a phorfa fras wedi'i gorburi. Er mai ychydig o fioamrywiaeth sydd yn y rhan fwyaf ohono, mae yna oroeswyr annisgwyl a rhywogaethau prin i'w cael yn y mannau hynny na fu fawr o ymyrryd arnyn nhw (gweler y dudalen olaf).

Mater bach ydi i chi gymhwyso'r un ffyrdd o edrych ar ein tirweddau ac o feddwl amdany'n nhw mewn mannau eraill. Lle sy'n taro'ch pen chi, a chanddo amgylcheddau na fu fawr o ymyrryd arnyn nhw, allai fod yn gartref rhywogaethau prin?

---

I gael rhagor o wybodaeth am gynefinoedd a bywyd pryfed y comin, cofiwch wrando ar y recordiad sain hefyd! Os oes arnoch chi eisiau cael gwybod mwy am bryfed a sut i'w henwi nhw, mae yna lond gwlad o arweinlyfrau maes ar gael i'w prynu, ac at hynny digonedd o help gan fforymau a grwpiau ar lein ar Facebook, Flickr, iSpot ac yn y blaen. Bydd gofyn camera digidol arnoch chi (mae'n debyg bod gan eich ffôn un sylfaenol fydd yn gweithio ar bryfed mwy), ond fuo hi erioed yn haws dechrau dysgu am fywyd gwyllt!



Cacynen gynffonwen, ar gribell goch



Eithin



Nythod Morgrug Melyn y Maes



Tresgl



Hesgen Feddal

Rhai o blanhigion a phryfed cyffredin Comin Pen-y-bont



Sboncyn y dail prin *Hardya melanopsis*



Y Fuwch Gota Hieroglyffig brin ac sy'n mynd yn brinnach, sydd i'w chael mewn manau corslyd



Y pryf daear *Peritrechus lundii*: heb ei gofnodi cynt o'r Canolbarth



Newydd-ddyfodiad arall: y sioncyn daear *Tetrix subulata*



Chwilen durio coed brin, *Gynobius planus* – yn y prysglwyn diffaith!



Brwydr y picwn hela corynnod (teulu *Pompiliidae*), ar lan serth nant

Rhai o bryfed mwy anghyffredin Comin Penybont